CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y Cyfarfod:	**17 Gorffennaf 2024**
Teitl:	**Asesiad Perfformiad Panel – Cytuno ar Aelodaeth y Panel**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried y rhestr o Aelodau Panel posibl a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chytuno ar aelodaeth y Panel**
Er:	**Penderfyniad**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

Cyflwyniad
Cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefn perfformiad newydd yn seiliedig ar Hunanasesu ar gyfer Prif Gynghorau. Rhan o'r drefn newydd yw'r ddyletswydd i gynnal Asesiad Perfformiad Panel unwaith ym mhob cylch etholiad.

Bwriedir i Asesiadau Perfformiad Paneli roi persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Y nod yw cefnogi cynghorau i gyflawni eu dyheadau drwy ddatblygu dealltwriaeth o sut y maent yn gweithredu a sut y gallant sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

Cynhelir yr Asesiad gan Banel o gyfoedion hyfforddedig ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae aelodau'r Panel yn cael eu dewis o gronfa o gyfoedion hyfforddedig ledled Cymru y cytunir arno gyda'r Cyngor. Mae'r gronfa o gyfoedion hyfforddedig yn cael ei chynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), sy'n cefnogi sefydlu a rhedeg yr Asesiad. Yr allbwn o'r Asesiad yw adroddiad adborth gan y Panel ar eu canfyddiadau, gan gynnwys argymhellion i'r Cyngor eu hystyried.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda CLlLC i drefnu Asesiad Perfformiad Panel cyntaf y Cyngor rhwng 30 Medi a 3 Hydref 2024. Roedd y Panel i fod i gael ei gynnal ym mis Gorffennaf yn wreiddiol ond cafodd ei aildrefnu oherwydd yr Etholiad Cyffredinol. Y cam nesaf yw ystyried a chytuno ar aelodaeth arfaethedig y Panel a fydd yn cynnal yr Asesiad.

Y Sefyllfa Bresennol
Mae Aelodau arfaethedig y Panel i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'r rhain wedi'u dewis yn ofalus gan CLILC i gyd-fynd â'r set sgiliau sydd ei hangen ar y Cyngor yn ei Ddogfen Gwmpasu. Mae'r themâu y bydd y Panel yn canolbwyntio arnynt fel a ganlyn:

Tri gofyniad craidd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:
- I ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- I ba raddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- A yw ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Ynghyd â'r tair thema ganlynol a nodwyd gan y Cyngor lle gall gael y budd mwyaf:
- Cyllid ac Adnoddau
- Rheoli Cyfalaf ac Asedau
- Arloesi ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y Cyngor

Fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae aelodaeth y Panel yn gofyn am gytundeb y Cabinet.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na, nid yw Asesiad Perfformiad y Panel yn cyflwyno unrhyw bolisïau na strategaethau newydd.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:
Bod y Cabinet yn cymeradwyo Aelodaeth arfaethedig y Panel.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Sicrhau cydymffurfiaeth â Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Trosolwg a Chraffu:
Amh. Fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet yw'r corff penderfynu ar gyfer aelodaeth y Panel.

Fframwaith Polisi:
Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Pob un, mae Asesiad Perfformiad y Panel yn edrych ar berfformiad cyffredinol y Cyngor.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Dim, mae CLlLC wedi cadarnhau y bydd y costau sy'n gysylltiedig ag Asesiad Perfformiad y Panel yn y gyfran gyntaf hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025 yn cael eu talu gan Gronfa Gwella CLlLC.

Goblygiadau cyfreithiol:
Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gynnal Asesiad Perfformiad Panel o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol.

Goblygiadau staffio:
Bydd y Panel yn cael ei gefnogi gan Swyddog Gwella dynodedig CLlLC a Thîm Perfformiad y Cyngor wrth baratoi, yn ystod ac ar ôl yr Asesiad.

Goblygiadau eiddo / asedau:
Amh

Risg(iau):
Ni chynhelir Asesiad Perfformiad y Panel gan arwain at fethiant i gydymffurfio â deddfwriaeth (Rhan 6 o Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021).

Pwerau Statudol:
Amh

Papurau Cefndir:
Amh

Atodiadau:
Atodiad 1 – Aelodaeth Arfaethedig y Panel

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Swyddog Adrodd:
Rob Starr, Tîm Perfformiad ac Ymchwil

Dyddiad:
24 Mehefin 2024

Atodiad 1 – Aelodaeth Arfaethedig y Panel

Cadeirydd Annibynnol: Steve Phillips

- **Swydd bresennol:** Perchennog cwmni Leucarum Consultancy Services, sy'n darparu ymgynghoriaeth reoli.
- **Cefndir:** Mae ganddo brofiad helaeth o lywodraeth leol ar ôl gwasanaethu fel Prif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot rhwng 2009 a 2020, ac fel Cyfarwyddwr Corfforaethol yng Nghyngor Dinas Caerdydd cyn hyn. Bu hefyd yn gweithio i Lywodraeth Cymru rhwng 1997 a 2003. Mae ganddo sgiliau mewn Datblygu Economaidd, Y Sector Gwirfoddol, Ymgysylltu â'r Gymuned a Dadansoddi Polisi. Mae'n weithiwr datblygu busnes proffesiynol cryf gyda Gradd Meistr sy'n canolbwyntio ar Weinyddiaeth o Brifysgol Caerdydd.
- **Siaradwr Cymraeg:** Na

Uwch Aelod Etholedig: Robin Wyn Williams

- **Swydd bresennol:** Dirprwy Arweinydd (Ynys Môn). Portffolio: Dirprwy Arweinydd a Chyllid.
- **Cefndir:** Mae ganddo ffocws cryf ar gyllid Awdurdodau Lleol a chyda chwmnïau preifat. Mae ei gefndir mewn cynllunio ariannol. Cynghorydd ariannol profiadol sydd â hanes amlwg o weithio yn y diwydiant gwasanaethau ariannol. Medrus mewn gwella perfformiad, bancio, cronfeydd pensiwn, cynllunio ymddeoliad, a datblygu pobl. Gweithiwr proffesiynol cryf gyda DipPFS yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol gan y Sefydliad Yswiriant Siartredig. Mae wedi bod yn Gynghorydd Plaid Cymru ers 2017 ac ar hyn o bryd yn ei ail dymor.
- **Siaradwr Cymraeg:** Ydy

Uwch Swyddog mewn Gwasanaeth Llywodraeth Leol: Jenny Williams

- **Swydd bresennol:** Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (Conwy)
- **Cefndir:** Wedi gweithio mewn llywodraeth leol am ddau ddegawd ac mae'n credu'n gryf yn y sector cyhoeddus, ond mae ganddi hefyd brofiad da o arloesi gwasanaethau gydag ystod o gwmnïau cyhoeddus a phreifat. Arweinyddiaeth dosturiol ac arwyddair o drin pobl gyda charedigrwydd a pharch i gyflawni'r canlyniadau gorau. Wedi dal amrywiaeth o rolau ym maes Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac yn eiriolwr dros amgylchedd cynhwysol lle mae pawb yn cael eu derbyn am bwy ydyn nhw. Yn meddu ar brofiad eang mewn ailgynllunio, trawsnewid ac arloesi gwasanaethau. Hefyd yn ymddiriedolwr Plant yng Nghymru, Cadeirydd Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru, a Chadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.
- **Siaradwr Cymraeg:** Ydy

Cyfoed o'r Sectorau Cyhoeddus Ehangach, Preifat neu Wirfoddol: Nesta McCluskey

- **Swydd bresennol:** Cyfarwyddwr Clinigol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Maelor yn Wrecsam
- **Cefndir:** Mae ganddi gefndir cryf mewn iechyd gyda gwybodaeth, sgiliau a phrofiad arbenigol o'r sector iechyd. Mae rolau blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Clinigol Therapïau, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Therapïau Ardal, a Phennaeth Ffisiotherapi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hefyd wedi gweithio ar brosiectau ar y cyd yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae cysylltiad cyflogaeth yng Ngogledd Cymru felly'n gallu cynnig y persbectif ffres sydd ei angen gan y sector cyhoeddus ehangach. Mae cymwysterau yn cynnwys MSc mewn Ymarfer Gofal Iechyd Uwch a BSc mewn Ffisiotherapi.
- **Siaradwr Cymraeg:** Ydy